# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 63
14/06/21

## Paul a Silas yn y carchar

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!




**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes
Delyth Dempsey a Gwyn Rhydderch



An English version is also available


Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net



Rhyw ddiwrnod arall pan oedden ni ar ein ffordd i'r lle gweddi, dyma ni'n cyfarfod caethferch oedd ag ysbryd ynddi yn ei galluogi i ragweld y dyfodol. Roedd hi'n ennill arian mawr i'w pherchnogion drwy ddweud ffortiwn. Dechreuodd ein dilyn ni, gan weiddi, “Mae'r dynion yma yn weision i'r Duw Goruchaf! Maen nhw'n dweud wrthoch chi sut i gael eich achub!” Aeth hyn ymlaen am ddyddiau lawer. Yn y diwedd, roedd hi wedi mynd ar nerfau Paul cymaint nes iddo droi rownd a dweud wrth yr ysbryd drwg oedd ynddi, “Yn enw Iesu y Meseia, tyrd allan ohoni!” A dyma'r ysbryd yn ei gadael hi yr eiliad honno.

Pan welodd ei meistri fod pob gobaith o wneud elw drwyddi wedi mynd, dyma nhw'n gafael yn Paul a Silas a'u llusgo o flaen yr awdurdodau yn sgwâr y farchnad. “Mae'r Iddewon yma yn codi twrw yn y dre,” medden nhw wrth yr ynadon “ac maen nhw'n annog pobl i wneud pethau sy'n groes i'n harferion ni Rufeiniaid.”

Ymunodd y dyrfa yn yr ymosod ar Paul a Silas, a dyma'r ynadon yn gorchymyn tynnu dillad y ddau a'u curo â ffyn. Wedyn ar ôl eu curo'n ddidrugaredd, dyma nhw'n eu taflu nhw i'r carchar. Cafodd swyddog y carchar orchymyn i'w gwylio nhw'n ofalus, felly rhoddodd y ddau ohonyn nhw yn y gell fwyaf diogel a rhoi eu traed mewn cyffion.



Tua hanner nos roedd Paul a Silas wrthi'n gweddïo ac yn canu emynau o fawl, ac roedd y carcharorion eraill i gyd yn gwrando. Yna'n sydyn dyma ddaeargryn mawr yn ysgwyd y carchar i'w sylfeini. Dyma'r drysau i gyd yn agor, a'r cadwyni yn disgyn i ffwrdd oddi ar bawb! Pan ddeffrodd swyddog y carchar a gweld y drysau ar agor, roedd yn meddwl fod y carcharorion wedi dianc. Gafaelodd yn ei gleddyf gan fwriadu lladd ei hun. Ond dyma Paul yn gweiddi, “Paid! Dŷn ni i gyd yma!”

Galwodd y swyddog am oleuadau, a rhuthro i mewn i gell Paul a Silas, a syrthio i lawr o'u blaenau yn crynu mewn ofn. Yna aeth â nhw allan a gofyn iddyn nhw, “Beth sydd raid i mi ei wneud i gael fy achub?” Dyma nhw'n ateb, “Credu yn yr Arglwydd Iesu, dyna sut mae cael dy achub – ti a phawb arall yn dy dŷ.” A dyma nhw'n rhannu'r newyddion da am yr Arglwydd Iesu gyda'r swyddog a phawb arall yn ei dŷ. Aeth y swyddog â nhw yng nghanol y nos i lanhau eu briwiau. Wedyn cafodd e a phawb arall yn ei dŷ eu bedyddio. Yna aeth â nhw i'w gartref a rhoi pryd o fwyd iddyn nhw. Roedd pawb yn ei dŷ mor hapus eu bod nhw wedi credu yn Nuw.

*Actau 16:16-34 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Roedd Paul a Silas wedi teithio i Philipi. Un diwrnod wrth gerdded i’r lle gweddi fe wnaeth merch oedd yn gallu dweud ffortiwn eu dilyn. Gwaeddodd ar Paul a Silas, “Mae’r dynion yma’n dilyn Duw”. Doedd rhai o’r bobl ddim yn hapus eu bod nhw yno felly carcharwyd Paul a Silas a’u rhwymo mewn cadwyni a rhoddwyd eu traed mewn cyffion. Roedd swyddog y carchar yn eu gwylio drwy’r amser. Fe fuon nhw’n gweddïo a chanu mawl i Dduw drwy’r nos. Yn sydyn dechreuodd waliau’r carchar ysgwyd ac fe ddisgynnodd rhannau o’r waliau i lawr. Syrthiodd y cadwyni oddi ar arddyrnau a thraed Paul a Silas. Deffrodd swyddog y carchar mewn ofn ar ôl clywed y sŵn a gwelodd beth oedd wedi digwydd. Dywedodd Paul a Silas wrtho,“Paid â phoeni, mae’r holl garcharorion dal yma!” Deallodd y swyddog fod Duw wedi rhyddhau Paul a Silas. Daeth y swyddog a’i deulu yn ffrindiau i Iesu y noson honno.



# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Pa gân wyt ti’n hoffi ei chanu i godi dy galon?
2. Beth oedd Paul a Silas yn ei wneud pan oedden nhw wedi eu rhoi yn y carchar?
3. Beth ddigwyddodd wedyn?
4. Beth mae hyn yn dy ddysgu i’w wneud pan fydd rhywbeth yn anodd?





# Gweddi fer

O Dduw, rwyt Ti mor dda! Rydw i'n dy foli Di am dy fod Ti mor wych, mor garedig a pherffaith. Diolch i Ti am fy ngharu i. Amen.


# Stori i'w lliwio

# Paul a Silas yn canu yn y carchar


www.lambsongs.co.nz   Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)   Lluniau: Richard Gunther





Aeth Paul a Silas o un dref i'r llall yn cyhoeddi i bawb y Newyddion Da am Iesu Grist, Mab Duw.



Yn un dref fe wnaethon nhw ddweud wrth ferch ifanc am Iesu ac fe ddaeth hi'n Gristion. Ond roedd ei meistr yn flin iawn am hyn ac fe lwyddodd i gael yr awdurdodau i arestio Paul a Silas.




Yn y carchar roedden nhw'n ceisio codi eu calon drwy adrodd geiriau o'r Beibl a thrwy ganu caneuon o fawl i Dduw drwy'r nos. Gallai'r carcharorion eraill a'r gwarchodlu eu clywed nhw.




Roedd ffrindiau Paul a Silas yn gweddïo amdanynt a'r noson honno siglodd daeargryn mawr y carchar gan agor ei ddrysau'n llydan agored. Pe byddai'r carcharorion yn dianc fe fyddai'r gwarchodlu mewn helbul ofnadwy.




Ond wnaeth Paul a Silas ddim dianc. Roedd prif giard y gwarchodlu mor eithriadol o falch i'w gweld. "Mae Duw gyda ni ac rydyn ni eisiau i ti wybod am Iesu, Mab Duw," meddent wrtho.



"Dywedwch wrthyf fi amdano," atebodd y prif giard. Eglurodd Paul sut roedd Duw wedi anfon ei fab i'r byd ac fel y gwnaeth o iacháu a helpu pobl. Yna dywedodd fel y bu Iesu farw ar groes bren. "Mae'n fyw yn awr, yn union fel yr oedd Duw wedi addo."




"Yn unig creda mai Iesu Grist ydy Mab Duw. Byddi dithau hefyd yn dod yn blentyn i Dduw." "Rydw i'n credu mai Iesu ydy Mab Duw," atebodd y prif giard.



Dywedodd y prif giard wrth ei deulu i gyd am Iesu. Fe wnaethon nhw wrando ar Paul a Silas ac fe wnaeth pob un ohonynt gredu yn Iesu hefyd. Fel Paul a Silas roedden nhw nawr yn blant i Dduw.

# Sialensau



## Llun mawr ar y llawr

Fedri di greu llun mawr ar y llawr o Paul a Silas yn y carchar gan ddefnyddio gwahanol ddefnyddiau?

## Cyfansoddi cân

Beth am fynd ati i gyfansoddi cân i ganmol Duw?
Meddylia am eiriau i ddisgrifio a chanmol Duw i dy helpu i ddechrau.



## Ysgwyd i'r top

**Byddi angen:**

- Jar gyda chaead arni
- Reis
- Marblen neu bêl golff

**Sut i wneud:**

- Rho'r farblen/bêl golff yng ngwaelod y jar.
- Rho'r reis ar ben y farblen/bêl golff nes ei fod yn llenwi hyd at tua 2cm o gaead y jar.
- Caea gaead y jar yn iawn.
- Ysgwydwa'r jar nes bod y farblen/bêl golff yn cyrraedd top y reis.




## Cân bob dydd

Edrycha'n ôl ar y caneuon rwyt ti wedi eu clywed ar "Clwb Plant drwy'r Post" a chana gân neu wrando ar un wahanol pob dydd yr wythnos hon. Gelli di ddod o hyd i'r caneuon ar y ddolen hon o youtube: https://www.youtube.com/channel/UCX9v1qcOnnB4QY261Xq4msA




# Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/vpGSFWjQBIc

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/YaoT9Mu_tC4



Cartŵn (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=5t_3BuseTS0

# Posau

Defnyddia'r cod i ddod o hyd i'r adnod

| | |
|---|---|
| ♩ | n |
| ♪ | a |
| ♬ | b |
| 𝄞 | w |
| 𝄢 | ch |
| 𝄽 | e |
| 𝅗𝅥 | d |

C♪♩𝄞𝄢 i'r ♪rgl𝄞ydd! C♪♩mol𝄞𝄢

𝄽i 𝄽♩𝄞, ♪ 𝅗𝅥𝄞𝄽u𝅗𝅥 ♬o♬ 𝅗𝅥ydd sut


m♪𝄽 𝄽'♩ ♪𝄢u♬. S♪lm 96:2

## Beth wnaethon nhw?

Cafodd Paul a Silas eu taflu i'r carchar. Yn lle cwyno, fe wnaeth y ddau rywbeth arall. Lliwia tu'r mewn i fariau'r carchar.

Paid â lliwio'r tu mewn i'r llinellau toredig.

Pan fyddi wedi gorffen cei weld beth oedd Paul a Silas yn ei wneud.





## Cwestiynau o'r stori

1. Ar ôl iddyn nhw gael eu harestio, i ble aeth Paul a Silas?







2. Faint o'r gloch oedd hi pan oedd Paul a Silas yn gweddïo ac yn canu?



3. Beth ddigwyddodd nesaf?



# Rysáit

## Y carchar

- Cynhwysion:
- Bisgedi sgwâr neu betryal (Crackers neu Ryvita)
- Ffyn bara
- Caws hufennog
- Mefus

**Dull i adeiladu'r carchar:**

- Gosoda'r fisgïen sgwâr ar blât a'i thaenu'n drwchus â chaws hufennog.
- Gwna siâp dau berson allan o'r mefus a'u gosod yng nghanol y fisgïen.
- Gosoda'r ffyn bara'n fertigol, gydag ychydig o fwlch rhyngddynt, ar hyd ymyl y fisgïen i edrych fel bariau cell mewn carchar.
- Taena'r ail fisgïen yn drwchus â chaws hufennog a'i gosod ar ben y ffyn bara (ochr y cracyr a daenwyd â'r caws hufennog) i ffurfio to'r carchar.





# Canu

Iesu 'dyn ni'n canu dy glod.
Iesu 'dyn ni'n canu dy glod.
Dy gariad anhygoel
Sy'n gwneud i ni ganmol.
Iesu 'dyn ni'n canu dy glod.

Iesu mae dy gariad di mor lydan a dwfn a mawr…

Iesu ti'n fy 'ngharu pan dw i'n dda neu'n ddrwg
neu'n hapus neu'n drist…

Iesu mae dy gariad di i bobl fel ti,
Pobl fel hi a phobl fel _____yn flewog i gyd…



*©2001 Greg Leavers  Cyf. Cass Meurig*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/YaoT9Mu_tC4

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes:  ahughes@saintygymuned.org

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | L | W | A | M | W | C | A | D | W | Y | N |
| R | A | LL | Y | N | U | S | E | I | E | S | U |
| Y | C | E | LL | R | O | Ï | DD | E | W | G | B |
| S | D | I | A | N | C | I | E | S | U | A | O |
| A | Y | O | D | R | A | E | FF | U | T | C | I |
| U | W | D | U | W | G | O | DD | Y | W | S | DD |
| U | G | C | A | N | U | R | W | A | C | N | Y |
| D | S | TH | O | W | A | M | Y | S | W | U | D |
| B | Y | S | R | CH | N | U | A | N | Y | M | E |
| U | T | Y | R | F | A | O | D | G | W | I | B |
| CH | W | A | O | H | Y | C | U | R | O | U | N |
| A | C | R | E | D | U | N | Y | R | C | R | D |

ACHUB
AGOR
BEDYDDIO
CADWYN
CANU
CARCHAR
CREDU
CRYNU
CELL
CURO
CYFFION
DAEARGRYN
DIANC
DRYSAU
EMYNAU
GWEDDÏO
IESU
MAWL
NOS
OFN
SWYDDOG
TYRFA
YSGWYD

# Gweddi greadigol

## Cadwyn weddi gyda ffoil

**Bydd angen:** Ffoil cegin

**Sut i wneud:**

- Torra ddarn o’r ffoil a’i siapio i wneud cylch fel dolen mewn cadwyn.
- Wrth i ti greu'r cylch meddylia am enw ffrind neu aelod o dy deulu, neu rywun sydd mewn angen a gofynna i Dduw fod yn agos atyn nhw.
- Gwna fwy nag un cylch neu gofynna i aelodau o dy deulu wneud dolenni hefyd a’u rhoi’n sownd yn ei gilydd i greu cadwyn.





# Gemau


## Dyfalwch y Gân



**Byddi angen:**
- Recordiad o fariau cychwynnol caneuon cyfarwydd
- Papur a phensil/beiro

**Sut i chwarae:**
- Bydd un person yn chwarae bariau cyntaf cân gyfarwydd a bydd y chwaraewyr eraill yn cofnodi eu hatebion ar ddarn o bapur.
- Ar ddiwedd y gêm bydd angen i'r chwaraewyr gyfnewid papurau a'u marcio.
- Yr enillydd fydd yr un sydd â'r sgôr uchaf.

## Gêm Cofio




**Byddi angen:** Cardiau gyda geiriau'r adnod arnynt (fel yn y llun).

**Sut i chwarae:**
- Gosoda'r geiriau ar y cardiau yn y drefn gywir,yn union fel ag y maen nhw yn yr adnod. Nawr darllena'r adnod ac yna tro un o'r cardiau wyneb i waered ac adrodda'r adnod. Gwna hyn drosodd a throsodd hyd nes bydd pob cerdyn wedi ei droi wyneb i waered a thithau'n gallu adrodd yr adnod.
- Os y bydd mwy nag un yn chwarae cymerwch eich tro i weld pwy fedr gofio'r adnod orau.
- Meddylia am Paul a Silas yn canu yn y carchar ac fel y gwnaeth Duw eu rhyddhau oddi yno.
- Pan fyddi di'n gwybod yr adnod yn dda iawn gelli droi'r cardiau wyneb i fyny a chymysgu'r geiriau ac yna ceisia roi geiriau'r adnod yn y drefn gywir.

## Dal y bariau



**Byddi angen:**
- Brwsh llawr, mop neu 'noodle' nofio i bob chwaraewr
- 3 neu fwy o chwaraewyr



**Sut i chwarae:**
- Mae pob chwaraewr yn sefyll rhyw 1m oddi wrth ei gilydd yn dal ei frwsh llawr/ 'noodle' nofio fel bod un pen ar y llawr.
- Ar ôl cyfrif i dri, mae pob chwaraewr yn gollwng gafael ar eu brwsh llawr/ 'noodle' nofio ac yn symud o'i le i safle'r person nesaf gan ddal eu brwsh/ 'noodle' nhw cyn iddo syrthio i'r llawr.
- Daliwch ati nes bod un chwaraewr yn methu.
- Sawl gwaith allwch chi newid lle?

## Bendith

Boed i'r ras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw ein Tad,
a chymdeithas yr Ysbryd Glân bod efo chi o'r awr hon a hyd byth.
Amen, Amen.



Gwyliwch y gân/gweddi hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/tZVsrNY3GQA